Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Sam's Learning Tree
# 159 Vale Road
# Y Rhyl
# LL18 2PH

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2016**

## Gwybodaeth am y lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Sam's Learning Tree |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn, fel y diffinnir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig |
| Person(au) Cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Michelle Gowing |
| Person â gofal | Gemma Wadsworth |
| Nifer y lleoedd | 84 |
| Amrediad oedran y plant | 3 mis i 11 blwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir ar gyfer eu haddysg | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 07.00 – 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Rhagfyr 2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ebrill 2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 09/02/2016 a 10/02/2016 |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r lleoliad yn darparu gofal mewn amgylchiadau eithriadol i bobl ifanc hyd at 18 oed. Mae'n darparu gofal dros nos o ddydd Gwener am 6.00pm i ddydd Sadwrn am 11.00am ar gais.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad Saesneg fel iaith yr aelwyd. Mae ychydig iawn o blant yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw blentyn yn siarad Cymraeg gartref. Roedd chwe phlentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad adeg yr arolygiad. Mae'r lleoliad wedi ei leoli mewn tŷ sydd wedi'i drosi ac mae'n cynnwys tair set o risiau sy'n arwain at ddarpariaeth ar y llawr uchaf. Mae'r lleoliad yn cyflogi 20 aelod staff parhaol ac 8 aelod staff dros dro. Y perchennog yw'r unigolyn cyfrifol, ac ymgymerodd y person â gofal â'r swydd yn Awst 2003.

## Crynodeb o'r adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Digonol |
| Addysgu ac asesu | Digonol |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol |

**Diffyg cydymffurfio**

**Fe wnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol, y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw.**

Rheoliad 28(2)(b)(ii) – addasrwydd gweithwyr; mae gwybodaeth neu ddogfennau llawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â'r person yn ymwneud â'r materion a nodir ym mharagraff 34 (e) i (g) a (j) i (l) o Ran 2 Atodlen 2.

Rheoliad 31(2)(a) a (b) – Darparu gwybodaeth. Rhaid hysbysu ynghylch newidiadau i'r unigolion sy'n gofalu am blant lle bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, cyn i'r newid hwnnw ddigwydd; ac ym mhob achos arall, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ond heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

## Argymhellion

A1 Gwella dealltwriaeth plant o'r Gymraeg a'u defnydd o Gymraeg bob dydd

A2 Rhoi sylw dyladwy i'r meysydd dysgu diwygiedig wrth gynllunio er mwyn sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau'n systematig dros amser

A3 Defnyddio gwybodaeth o arsylwadau ac asesiadau i gynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion unigol plant

A4 Sicrhau y gall plant fanteisio'n annibynnol ar ystod lawn y ddarpariaeth barhaus er mwyn datblygu ac ymgorffori eu medrau'n effeithiol

A5 Sicrhau bod cynllun gwella'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau ar gyfer gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a'r argymhellion a nodwyd. Bydd Estyn ac AGGCC yn monitro cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o’r plant yn cyfathrebu’n dda trwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Maent yn penderfynu beth yr hoffent ei wneud ac â phwy yr hoffent chwarae. Maent yn gwybod bod yr ymarferwyr yn deall eu hanghenion ac yn ymateb yn briodol i unrhyw geisiadau. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos yr hoffent olchi neu sychu eu dwylo ar ôl peintio. Mae’r rhan fwyaf o blant yn trafod eu chwarae ac yn rhannu syniadau am yr hyn y maent yn ei wneud a beth yr hoffent ei wneud nesaf.

Mae bron pob un o’r plant yn ymdopi’n dda wrth wahanu oddi wrth ei rieni ac yn ymgartrefu’n gyflym i’r arfer ddyddiol. Maent yn fodlon ac mae ganddynt berthynas dda â’r ymarferwyr, gan fynd atynt yn hyderus i gael sicrwydd a chysur. Mae bron pob un o’r plant yn ddigyffro ac yn rhyngweithio’n dda â’u cyfoedion. Mae ychydig o blant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch buddiol, ac yn eistedd wrth ochr ei gilydd ac yn sgwrsio’n gyfeillgar.

Mae bron pob un o’r plant yn rhyngweithio ac yn cydweithio’n dda â’u cyfoedion ac ymarferwyr. Maent yn dilyn yr arfer ddyddiol heb lawer o anogaeth ac yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd yn amser tacluso. Maent yn fodlon cydweithio â’i gilydd neu chwarae ochr yn ochr â’i gilydd wrth rannu adnoddau’n briodol. Mae plant hŷn yn eistedd gyda’i gilydd fel grŵp yn llwyddiannus ac yn gwrando’n dda ar wybodaeth am y gweithgareddau sydd ar gael yn ystod y sesiwn. Maent yn amlwg yn gwybod beth i’w ddisgwyl, ac yn aml yn ymuno â’r gweithgareddau y maent yn eu hoffi’n benodol, y tu mewn a’r tu allan.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb ac ymgysylltiad wrth chwarae. Yn benodol, maent yn mwynhau eu hamser yn yr awyr agored, ac yn ymateb â diddordeb a chyffro pan fyddant yn dod o hyd i fwystfilod bach, ac yn dyfalbarhau’n dda wrth ddysgu sut i gydbwyso ar y trên pren. Yn gyffredinol, maent yn symud o gwmpas eu hardaloedd yn rhwydd ac yn hyderus. Mae llawer o blant yn dyfalbarhau â thasg ar eu pennau eu hunain, fel rhoi edau trwy fotymau neu osod siapiau. Maent yn gofyn am help yn briodol, yn ôl yr angen. Mae’r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio’n dda yn ystod gweithgareddau dan arweiniad oedolyn, fel amser grŵp. Maent yn cynnal diddordeb yn yr hyn y mae ymarferwyr yn ei ddweud ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau, yn ogystal â siarad am bethau y maent yn eu hoffi neu bethau y byddant yn eu gwneud. Er enghraifft, maent yn siarad am yr hyn y byddant yn ei wneud yn ystod gwyliau’r hanner tymor. Mae’r rhan fwyaf o blant yn awyddus i ddysgu medrau newydd ac yn dangos pleser mewn cwblhau tasgau’n dda, fel gosod hosanau gwlyb ar lein ddillad yn llwyddiannus, a gorffen jig-sos.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos lefel addas o annibyniaeth ar gyfer eu hoedran a’u cyfnod datblygu, er enghraifft wrth iddynt frwsio eu dannedd a golchi eu dwylo eu hunain. Mae plant hŷn yn ceisio gwisgo eu ffedogau eu hunain cyn peintio, yn ogystal â gwisgo eu cotiau a’u hetiau cyn mynd allan i chwarae. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos hunan-barch da, er enghraifft pan fyddant yn dangos moesau da neu’n llwyddo i gwblhau tasg. Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfranogi’n effeithiol mewn ystod eang o chwarae a dysgu sy’n hybu eu datblygiad cyffredinol yn dda.

| Dysgu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig) | Da |
|---|---|

Gwna'r rhan fwyaf o blant gynnydd priodol yn ystod eu hamser yn y lleoliad ac maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Er enghraifft, maent yn siarad yn hyderus am wrthrychau 'bach' a 'mawr' yn dilyn eu ffocws diweddar ar faint. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cyfathrebu da. Mae bron pob un o'r plant yn sicrhau eu bod yn cael eu deall yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda yn ystod amser cylch ac yn dilyn cyfarwyddiadau â dealltwriaeth dda, fel casglu eu matiau i eistedd arnynt. Maent yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac ag oedolion, gan ddefnyddio iaith briodol i ddisgrifio'r crempogau y gwnaethant o does. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwneud marciau ac yn dechrau deall bod diben i ysgrifennu, er enghraifft pan fyddant yn cogio cofnodi mesuriadau ar glipfyrddau. Mae plant mwy abl yn dechrau ysgrifennu ychydig o'r llythrennau yn eu henwau â rheolaeth gynyddol. Mae llawer o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau, gan droi'r tudalennau'n ofalus a dechrau ymddwyn fel darllenwyr.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn didoli ac yn paru ffrwythau o liwiau gwahanol yn llwyddiannus wrth chwarae gêm, ac yn adnabod siapiau syml yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif yn hyderus hyd at o leiaf pump ac yn defnyddio iaith fathemategol syml i siarad am faint yn briodol.

Gwna'r rhan fwyaf o blant gynnydd da â'u medrau personol a chymdeithasol. Maent yn deall yr angen i rannu a chymryd tro, ac maent yn ymuno'n briodol â gweithgareddau grŵp. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gêm o 'Beth yw'r amser, Mr Blaidd?' yn frwdfrydig ac yn effeithiol. Mae medrau meddwl a datrys problemau y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygu, er enghraifft pan fyddant yn gweithio allan sut i gwblhau jig-sos ac yn ystyried beth fydd yn digwydd os byddant yn ychwanegu dŵr at bridd.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r llithren yn hyderus ac yn trin gefeiliau bach â rheolaeth gynyddol. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda wrth iddynt gyfeirio ceir rheoli o bell a dewis gemau ar y cyfrifiadur.

Gwna'r rhan fwyaf o blant gynnydd priodol â'u medrau Cymraeg o'u man cychwyn. Er enghraifft, mae llawer o blant yn ymuno â'r gân 'bore da' ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn enwi lliwiau'n hyderus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw dealltwriaeth plant o'r Gymraeg a'u defnydd o Gymraeg bob dydd wedi eu datblygu'n ddigonol.

| Gofal a datblygiad | Digonol |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn dysgu arferion iechyd a hylendid da, er enghraifft trwy frwsio eu dannedd a golchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae'r byrbrydau a'r prydau bwyd sy'n cael eu cynnig i'r plant yn cael eu paratoi'n ddyddiol, gan ddefnyddio ffrwythau a llysiau ffres. Mae ymarferwyr yn cynnig llaeth neu ddŵr i blant eu hyfed yn rheolaidd er mwyn annog hydradiad da. Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae y tu allan ddwywaith y dydd, sy'n cynorthwyo eu datblygiad corfforol yn effeithiol. Pan mae'n bosibl, mae'r ymarferwyr yn trefnu i'r plant fynd am dro, gan roi digon o gyfleoedd buddiol iddynt wneud ymarfer corff. Mae gan y lleoliad weithdrefnau

priodol ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid yw’r holl ymarferwyr yn dilyn y gweithdrefnau hyn yn gyson o ran cofnodi’r dos diwethaf a roddwyd i’r plentyn cyn iddo/iddi gyrraedd y lleoliad. Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol.

Mae ymarferwyr yn cydweithio’n agos â rhieni i fodloni anghenion unigol eu plentyn. Maent yn trefnu ymweliadau â’r cartref cyn i lawer o’r plant ddechrau yn y lleoliad, ac yn gwahodd rhieni a phlant i fynychu sesiynau setlo. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu’r gofal sydd ei angen arnynt yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod babanod yn dilyn eu harferion dyddiol o ran eu patrymau bwyta a chysgu. Mae ymarferwyr yn cofnodi cynnydd y plant yn y lleoliad yn rheolaidd ac yn cynllunio amserlen wythnosol o weithgareddau sy’n galluogi’r plant i ffynnu, gan wneud defnydd da o’u system gweithwyr allweddol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau da ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol. Mae ymarferwyr yn cynllunio’n effeithiol i helpu plant unigol i wneud cynnydd, gan gydweithio’n agos â rhieni a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Gwna’r lleoliad ddefnydd buddiol o wybodaeth gan wasanaethau arbenigol i gynorthwyo plant unigol a gwella eu harfer yn gyffredinol.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn dda ac maent yn ddelfryd ymddwyn da. Maent yn rheoli enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol yn bwyllog ac yn sensitif, gan ganmol y plant a’u hailgyfeirio’n effeithiol, heb amharu ar lif yr arfer ddyddiol. Mae ymarferwyr yn annog moesau da yn llwyddiannus trwy atgoffa’r plant yn dyner i ddweud os gwelwch yn dda a diolch. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae ymarferwyr yn sicrhau y gall yr holl blant fanteisio’n gyfartal ar adnoddau. Ceir cyfleoedd priodol i blant ddysgu am eu diwylliannau eu hunain a rhai eraill, er enghraifft pan fyddant yn dathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn dysgu am Santes Dwynwen.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r rhan fwyaf o reoliadau ac yn peri ychydig bach o bryder. Mae mwyafrif yr ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig)** | **Digonol** |
|---|---|

Mae’r lleoliad yn cynllunio ystod addas o brofiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb y plant ac yn cwmpasu’r rhan fwyaf o’r meysydd dysgu yn dda dros amser. Yn gyffredinol, mae cynllunio’n cynorthwyo datblygiad y plant yn briodol ac mae ymarferwyr yn rhoi sylw addas i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn nodi’r medrau y maent am i’r plant eu datblygu yn ddigon penodol i sicrhau eu bod yn datblygu’r medrau hyn yn systematig. Er bod ymarferwyr yn dechrau addasu gweithgareddau ar gyfer galluoedd gwahanol, nid ydynt wedi datblygu hyn yn ddigon da i fodloni anghenion unigol yr holl blant yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol y plant dan do ac yn yr awyr agored trwy weithgareddau ac adnoddau diddorol. Maent yn cynllunio’n dda i blant ddatblygu eu medrau TGCh, medrau meddwl a’u medrau

creadigol, ac i ymarfer gwneud marciau yn ystod eu chwarae rhydd. Maent yn cynllunio gweithgareddau ystyrlon i ategu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd, fel y ffocws diweddar ar ailgylchu. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am y byd o'u cwmpas, gan gynnwys ymweld â siop a swyddfa bost gyfagos. Mae'r ymarferwyr yn helpu plant i ddysgu am eu diwylliant Cymreig wrth iddynt ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac addurno llwyau caru ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen. Maent yn cynllunio cyfleoedd addas i'r plant ddysgu geiriau a chaneuon Cymraeg syml yn ystod amser cylch. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw darpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg plant wedi ei datblygu'n ddigonol.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn darparu profiadau buddiol i ategu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu sut i gymryd tro, chwarae'n gydweithredol a deall rheolau ymddygiad syml, fel pan fyddant yn rhannu tapiau mesur ac offer palu yn yr awyr agored.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i helpu plant i ddysgu trwy chwarae a chyfranogi'n weithredol. Yn gyffredinol, ceir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau dan arweiniad yr ymarferwyr. Fodd bynnag, mae'r gosodiad a fabwysiadwyd yn y lleoliad yn ddiweddar yn cyfyngu ar allu'r plant i fanteisio ar ystod lawn y ddarpariaeth barhaus. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd plant i wneud penderfyniadau annibynnol a dilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad da ac yn annog plant i ddatblygu eu medrau hunangymorth yn briodol, fel disgwyl iddynt olchi eu platiau eu hunain ar ôl bwyta eu byrbrydau. Mae ymarferwyr yn fodelau iaith da ac yn holi'r plant yn adeiladol, gan eu helpu i ddatblygu eu medrau meddwl yn dda. Maent yn meithrin perthynas gynnes â'r plant ac yn ymyrryd mewn modd sensitif wrth iddynt chwarae, gan sicrhau bod y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn asesu'r plant yn rheolaidd, ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau defnyddiol. Mae hyn yn creu darlun clir o'r hyn y gall plant ei wneud mewn proffil unigol defnyddiol. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau yn systematig i helpu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am gynnydd eu plant, ac yn rhannu gwybodaeth yn ddyddiol.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae'r adeilad yn groesawgar, cynnes a chyfforddus ac yn darparu amgylchedd da ar gyfer chwarae. Mae'r ymarferwyr yn arddangos rhai enghreifftiau o waith y plant ar waliau'r ystafelloedd chwarae, ynghyd ag arddangosiadau lliwgar o'u pen-blwyddi, gan ddefnyddio cacennau lliwgar i amlygu'r rhain yn effeithiol. Mae gosodiad y rhan fwyaf o'r ystafelloedd chwarae yn galluogi'r plant i symud o gwmpas yn rhwydd a gwneud eu dewisiadau eu hunain wrth chwarae. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth i blant hŷn wedi ei rhannu dros ddau lawr, gan gyfyngu ar eu gallu i fanteisio'n

annibynnol ar bob maes dysgu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer cysgu yn briodol. Mae babanod yn cysgu mewn coetsis ac mae plant bach yn defnyddio ystafell benodedig i fyny'r grisiau, lle mae matresi a'u dillad gwely eu hunain wedi eu gosod er mwyn iddynt gysgu ar ôl cinio.

Mae'r arweinwr yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel ac yn sicr. Gall ymwelwyr ond mynd i mewn i'r lleoliad pan fydd ymarferydd yn caniatáu iddynt wneud hynny. Mae'r lleoliad wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod plant ond yn gadael yr adeilad â rhiant neu ofalwr adnabyddedig. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau dros sicrhau bod plant yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn goruchwylio plant yn ofalus wrth iddynt ddefnyddio'r grisiau. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg ar gyfer y tu mewn a'r tu allan, ac yn gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw beryglon y maent yn eu nodi o ran diogelwch y plant.

At ei gilydd, mae'r lleoliad yn lân ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Mae'r ymarferwyr wedi sefydlu arferion glanhau dyddiol effeithiol, gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb am dasgau penodol yn eu hystafelloedd chwarae priodol. Mae'r ymarferwyr yn arfer gweithdrefnau hylendid effeithiol, yn unol â'r offeryn archwilio rheolaeth haint a gwblhawyd gan y lleoliad.

Mae'r mannau newid clytiau a'r toiledau wedi eu lleoli'n gyfleus ac yn rhoi lefel briodol o breifatrwydd i'r plant. Mae dalwyr papur toiled a llieiniau papur isel yn galluogi'r plant i sychu eu dwylo neu eu trwynau heb orfod gofyn am help, sy'n ategu eu hannibyniaeth ddatblygol yn llwyddiannus.

Mae offer yn yr ystafelloedd chwarae wedi ei osod allan yn dda, gan alluogi'r plant i ddefnyddio'r hyn sydd ei eisiau arnynt yn rhwydd. Mae blychau storio teganau a droriau ag enwau unigol arnynt yn rhoi cyfleoedd da i'r plant ddysgu sut i adnabod eu henwau eu hunain a gwybod ble i ddod o hyd i adnoddau gwahanol. Mae digon o adnoddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, fel gwisgoedd ffansi a deunyddiau darllen.

Mae'r man chwarae awyr agored yn darparu ardal ddiogel a chyffrous lle gall y plant chwarae ac archwilio'n rhwydd. Mae'n cynnwys offer chwarae sefydlog, fel y trên pren, cegin fwd a phwll tywod mawr dan gysgod, ac mae'n gwbl amgaeedig er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae gan yr unigolyn cyfrifol weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy'n cyfrannu'n effeithiol at ei ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol. Mae'n meithrin perthynas waith dda â'r staff trwy ei hymglymiad beunyddiol egnïol a gweithgar â'r lleoliad. Mae hyn yn ei galluogi i herio pawb i wneud eu gorau glas, gan osod safonau uchel ar gyfer ansawdd y gofal sy'n cael ei gynnig. Mae'r unigolyn cyfrifol yn atgyfnerthu safonau ac yn rhannu gwerthoedd a disgwyliadau'n effeithiol trwy gyfarfodydd staff rheolaidd. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr ac ymarferwyr rannu awgrymiadau ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol ac yn hyblyg fel tîm. Mae'r unigolyn cyfrifol yn diweddaru'r holl bolisïau perthnasol yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n briodol ar anghenion plant. Fodd bynnag, mae ychydig o'r polisïau'n rhy fanwl i'w deall a'u rhoi ar waith yn hawdd. Mae'r lleoliad yn bodloni'r

holl safonau gofynnol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'n cydymffurfio'n llawn â holl reoliadau AGGCC, fel sicrhau bod holl ffeiliau'r staff yn gyflawn a hysbysu AGGCC yn brydlon am unrhyw newidiadau i'r unigolion sy'n gofalu am y plant.

Mae diwylliant sefydledig o welliant parhaus yn y lleoliad, ac mae'r holl ymarferwyr yn cyfrannu'n rheolaidd at newidiadau defnyddiol i'r amgylchedd dysgu. Mae'r unigolyn cyfrifol, ynghyd ag arweinwyr yr ystafelloedd a rheolwyr, yn croesawu cyngor a chymorth gan asiantaethau eraill, fel yr awdurdod lleol ac athrawon cyswllt Dechrau'n Deg, gan weithredu ar eu hawgrymiadau'n brydlon. Mae adroddiad hunanarfarnu'r lleoliad yn cwmpasu pob agwedd ar waith y feithrinfa yn effeithiol. Mae'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol ac yn onest. Mae'r unigolyn cyfrifol yn rhoi ystyriaeth briodol i farn rhieni, plant a staff wrth baratoi'r adroddiad. Fodd bynnag, nid yw'n ymgynghori'n ffurfiol â rhieni ac ymarferwyr fel rhan o'r broses hunanarfarnu. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle a gânt i gyfrannu eu safbwyntiau. Mae hunanarfarniad y lleoliad yn bwydo cynllun gwella cynhwysfawr y lleoliad, gan gofnodi rhaglen dreigl o welliannau dros y ddwy flynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn nodi'r prif flaenoriaethau strategol ar gyfer gwella yn ddigon da, oherwydd mae'n rhy fanwl. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad yn mynd i'r afael â'r materion pwysicaf yn ddigon cyflym bob tro, fel sicrhau ei fod yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant hŷn yn systematig. Er i'r lleoliad wneud cynnydd da tuag at fodloni'r argymhellion o arolygiad blaenorol Estyn i ddechrau, nid yw'r arweinwyr wedi adeiladu ar y gwelliannau hyn yn effeithiol.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod digon o ymarferwyr â chymwysterau perthnasol a phriodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc yn y lleoliad. Mae'n defnyddio ymarferwyr yn hyblyg er mwyn sicrhau dilyniant a bodloni anghenion y plant. Mae rolau'r holl ymarferwyr wedi eu diffinio'n glir ac mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Yn achlysurol iawn, nid yw arweinwyr ystafelloedd yn sicr ynghylch eu cyfrifoldebau llawn dros safonau gwaith. O ganlyniad, ar achlysuron prin iawn, nid ydynt yn sicrhau bod ymarferwyr yn gwbl ymatebol i anghenion y plant. Mae system addas ar gyfer arfarnu a goruchwylio. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd, gwerthfawr i ymarferwyr arfarnu a gwella eu harfer. Mae'r unigolyn cofrestredig yn darparu cyfleoedd da i ymarferwyr fynychu hyfforddiant, fel hyfforddiant diweddar ar gynorthwyo datblygu iaith a lleferydd plant, a ddarparwyd ar y safle. Fodd bynnag, nid yw prosesau i sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio'n llwyr â rheoliadau yn ddigon cadarn. Mae'r lleoliad yn eangfrydig, ac yn datblygu partneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les y plant. Mae ganddo gysylltiadau cryf â rhieni, ac mae'n rhannu gwybodaeth â nhw yn dda. Mae gwefan ddwyieithog addysgiadol a hawdd ei defnyddio, sy'n amlinellu gwybodaeth am nodau, polisïau ac arferion y lleoliad yn glir iawn. Mae ymarferwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni trwy gysylltiad dyddiol rheolaidd a thrwy rannu gwybodaeth ar fwrdd gwyn neu drwy ddyddiaduron dyddiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn croesawu adborth gan rieni ac yn ymateb iddo'n gyflym.

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'r gymuned leol i ymestyn profiadau dysgu'r plant, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol, gyda theithiau rheolaidd i'r parc a'r traeth. Gyda chymorth swyddog cynorthwyo teuluoedd yr awdurdod lleol, mae'r lleoliad wedi meithrin cysylltiadau priodol â'r ysgolion cynradd lleol i gynorthwyo'r plant wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae arweinwyr a rheolwyr yn croesawu ymwelwyr o feithrinfeydd eraill i'r lleoliad, gan rannu arfer dda a datblygu rhwydwaith proffesiynol defnyddiol.

# Atodiad 1

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r meincnod – yn dynodi ei fod yn amherthnasol.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 21 | 13<br>62% | 8<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child likes this setting. | 21 | 15<br>71% | 6<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | - | - | - | - | | |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 21 | 16<br>76% | 4<br>19% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p'un ai i ddefnyddio'r lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 21 | 16<br>76% | 5<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 17 | 10<br>59% | 6<br>35% | 1<br>6% | 0<br>0% | 3 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy'n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is making good progress at the setting. | 20 | 16<br>80% | 4<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| Children behave well in the setting. | 21 | 13<br>62% | 8<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| Care is good. | 21 | 14<br>67% | 7<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gofal yn dda. |
| | | - | - | - | - | | |
| Teaching is good. | 20 | 14<br>70% | 6<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | - | - | - | - | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 19 | 15<br>79% | 4<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 13<br>65% | 7<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | - | - | - | - | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 21 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 18 | 13 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 20 | 13 | 5 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 65% | 25% | 10% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 21 | 14 | 7 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 18 | 10 | 7 | 0 | 1 | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 56% | 39% | 0% | 6% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 19 | 14 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 15 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |
| The setting is well run. | 21 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | - | - | - | - | | |

# Atodiad 2

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ac AGGCC (www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o anghenion. Defnyddiwn yr ymadrodd anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion yn ychwanegol at anghenion y rhan fwyaf o'r plant eraill yn y lleoliad, am sawl rheswm gwahanol. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys y Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r Person â Gofal<br><br>• Person Cofrestredig – y person sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gall fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br><br>• Unigolyn Cyfrifol – pan fydd y person cofrestredig yn sefydliad, dyma rywun wedi'i enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar ei ran<br><br>• Person â Gofal – yr unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig i fod â gofal llawn am y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Dyma'r cwricwlwm statudol i bob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim i blant dwy oed cymwys i helpu i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Hefyd, darparant lefelau uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hybu eu lles. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **System unigolyn allweddol neu weithiwr allweddol** | Dyma ymarferydd sydd wedi'i neilltuo i bob plentyn fel bod rhywun cyfarwydd, dibynadwy ar gael i'r plentyn a bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'n meithrin perthynas gadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Ymarferwyr** | Pob unigolyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn lleoliad. |